



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

P M Black  
S J Gallagher  
C A Holley  
M H Jones  
W G Thomas

### Y Cyngorydd(wyr)

P Downing  
D W Helliwell  
P R Hood-Williams  
P K Jones  
T M White

### Y Cyngorydd(wyr)

E W Fitzgerald  
T J Hennegan  
L James  
S M Jones

### Aelodau'r Cabinet

Robert Francis-Davies  
Rob Stewart

Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth  
Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth  
(Arweinydd)

### Swyddog(ion)

Huw Mowbray  
Phil Homes  
Liz Jordan  
Emily Davies  
Vicki Thomson  
Clare James  
Martin Nicholls

Rheolwr Datblygu Eiddo  
Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas  
Swyddog Craffu  
Swyddog Craffu  
Swyddog Rhaglenni Cyllid Allanol  
Rheolwr Datblygu Economaidd  
Cyfarwyddwr Lleoedd

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim

---

#### 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Datgelodd y Cyngorydd Paxton Hood–Williams gysylltiad personol ag eitem 13

#### 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

#### 3 Cofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunodd bod cofnodion y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Codwyd rhai ymholiadau ynghylch gwaith dilynol trafodaethau'r cyfarfod blaenorol:

- Cam 1 Abertawe Ganolog – Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth fanylach am effaith achosion COVID-19 ymhlith cyflogwyr, yn enwedig y gweithwyr hynny nad ydynt yn lleol i Abertawe. Gofynnwyd am yr hyn sy'n cael ei wneud i ddiogelu'r boblogaeth leol.
- Sicrhaodd swyddogion y Panel fod yr holl fesurau priodol yn cael eu cymryd i gyfyngu ar y risg o heintiau COVID-19, megis rhannu'r tîm yn adrannau, grwpiau'n gweithio/byw gyda'i gilydd, a chydymffurfio â'r holl ganllawiau a deddfwriaeth gysylltiedig.
- Safleoedd strategol – Skyline: Mynegwyd pryderon ynghylch y cyhoeddiad diweddar y bydd atyniad tebyg yn agor yn Hirwaun eleni. Mynegodd y Panel bryder ynghylch cystadleuaeth. Ymatebodd Aelodau'r Cabinet i'r pwynt hwn, gan gadarnhau bod Skyline yn gweld hyn fel ychwanegiad cadarnhaol, a bod Llywodraeth Cymru a'r cyngor yn awyddus i weld rhagor o glystyrau o atyniadau yn y rhanbarth.
- Mae Skyline a Llywodraeth Cymru yn dal i drafod ariannu; yr amserlen ar gyfer cwblhau, os yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen, yw pedair blynedd.
- Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod prosiect Skyline yn fewnffuddsoddiad rhyngwladol i Abertawe ac na fydd yn ddatblygiad a ariennir gan y cyngor. Ailadroddodd yr Arweinydd yr angen i adeiladu ar yr economi dwristiaeth a dod â mwy o atyniadau i'r rhanbarth gyfan. Cyfeiriodd swyddogion at ranbarth Sir Benfro fel enghraifft dda o glystyru atyniadau i dwristiaid.
- Sgwâr y Castell – Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad manwl ar ddatblygiadau ers penodi'r Rheolwr Datblygu.
- Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cynnydd da yn cael ei wneud o ran Sgwâr y Castell a bod cynigion diwygiedig i'w rhyddhau cyn bo hir.
- Gwnaeth Aelodau gwestiynu ymateb yr Arweinydd i'r llythyr blaenorol, gan nodi bod y siart cylch yn aneglur o ran beth yn union yw 'llafur lleol' (cyflogaeth), gan y mae'n ymddangos ei fod yn cynnwys Cymru gyfan. Darparodd y swyddogion y ffigurau lleol.

#### 4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd

#### 5 **Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect**

Rhoddodd Huw Mowbray, y Rheolwr Datblygu Eiddo, y diweddaraf i'r panel ynghylch y prosiectau adfywio yn Abertawe. Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd), ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

##### Abertawe Ganolog - Cam 1

- Mae cynnydd da yn cael ei wneud. Cadarnhawyd Vodafone fel y darparwr isadeiledd digidol a Wi-Fi. Cynhaliwyd adolygiad i ystyried dyluniad CCTV a ffordd o'i gyflwyno fel rhan o Gam 1.
- Mae'r Arena bron yn ddwrglos. Cladin allanol i ddechrau cyn bo hir.

Cytundeb Pobl wedi'i gwblhau ynghyd â fflat enghreifftiol yn barod ar gyfer arolygiad y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai. Canlyniad da gan y bydd yn lleihau cyfraniad y cyngor.

- Gofynnodd yr Aelodau a roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio'r cyfrif refeniw tai i brynu'r fflatiau hyn gan fod y cyngor yn ceisio cynyddu ei stoc tai cyngor. Esboniodd swyddogion nad oedd hwn yn opsiwn ar y pryd gan fod cap refeniw cyfalaf ar waith. Mae hyn bellach wedi'i godi, gallwn edrych ymlaen at gyfleoedd eraill.
- Holodd yr Aelodau am hyd y cytundeb prydlesu gyda Pobl. Mae swyddogion yn barod i ddarparu'r prif delerau os oes angen, er bod yr unedau wedi'u cynllunio ar gyfer newid defnydd hyblyg os oes angen.
- Lansio gwefan newydd Bae Copr i ymgorffori brand newydd. Mae swyddogion yn cadarnhau y cafwyd ymateb cadarnhaol iawn, yn enwedig gan fasnachwyr lleol.
- Holodd y Panel pam roedd bambŵ yn cael ei blannu ar y safle, yn hytrach na phlanhigion brodorol. Cadarnhaodd swyddogion fod planhigion brodorol hefyd yn cael eu plannu.
- Holodd yr Aelodau pa grwpiau mynediad yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r safle hwn. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi ymgynghori â phreswylwyr ac wedi anfon cylchlythyrau.
- Holodd yr Aelodau a fu cwynion, neu ganmoliaeth, gan breswylwyr lleol ynglŷn â'r safle. Cadarnhaodd swyddogion y cafwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol, ac, yn ddealladwy, cwynion hefyd ynglŷn â swm a gweithgarwch safle'r adeilad. Mae hyn yn debygol o leihau nawr wrth i'r craen gael ei dynnu a'r adeileddau adeiladu rhagarweiniol gael eu cwblhau.
- Holodd yr Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran cael gwared ar goed yn Wellington Street. Cadarnhaodd swyddogion fod yn rhaid symud dwy goeden oherwydd adleoli'r mynediad i Tesco, fodd bynnag, mae mesurau lliniaru ar waith a phlannwyd coed newydd.
- Holodd yr Aelodau a fyddai nifer uchel yn manteisio ar unedau masnachol yn yr hinsawdd fusnes sydd ohoni. Cadarnhaodd swyddogion y bu lefel dda o ddiddordeb gan fusnesau lleol.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd angen i ATG gael gwared ar ragor o staff. Cadarnhaodd swyddogion fod y rhan fwyaf o staff ATG ar ffyrlo, fodd bynnag, fel busnes ecwiti, mae partneriaid wedi buddsoddi arian. Mae ATG yn parhau i geisio penodi rheolwr ar gyfer Arena Abertawe ac yn bwriadu agor eu busnes eto eleni.
- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch a fyddai datblygiad y gwesty mewn perygl. Cadarnhaodd swyddogion fod Cairns yn dal i fod yn ymrwymedig i symud ymlaen a'u bod yn aros am ymateb gan Croeso Cymru ynghylch cyllid.

### Gogledd Abertawe Ganolog

- Fel rhan o'r adolygiad o wariant, dyfarnwyd cyllid i GPA ar gyfer prosiectau canolfannau lluosog ledled y DU. Rydym yn aros am fanylion y dyfarniad cyllid er mwyn symud ymlaen.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu eu strategaeth llety, y disgwylir iddi gefnogi canolfannau lleol.

- Gofynnodd y Panel am fanylion sefydliadau a oedd wedi dangos diddordeb mewn symud i Ganol Abertawe. Atebodd yr Arweinydd gan ddweud na ellid rhannu manylion ar hyn o bryd oherwydd trafodaethau rhwng gwahanol bartïon.

### Ffordd y Brenin

- Clywodd y Panel fod y datblygiad hwn yn dod i gasgliad a bod diffygion yn cael eu cwblhau. Bydd y cynllun yn fwy na'r swm tendr gwreiddiol a bennwyd gan Dawnus a disgwylir i'r gorwariant hwn gael ei gwmpasu gan y bond sydd ar waith.

### 71 a 72 Ffordd y Brenin

- Clywyd bod angen diwygio tendr ar y contract adeiladu. Nid oedd unrhyw gontractwyr wedi cydymffurfio â'r telerau gwreiddiol ac felly mae manyleb ddiwygiedig bellach wedi mynd allan i gynnig tendr. Clywodd y Panel fod diffyg cydymffurfio yn deillio'n bennaf o'r ystod o awgrymiadau amgen nad ydynt yn debyg.
- Holodd Aelodau'r Panel a ddylem fod yn prisio peirianeg y prosiect hwn a dywedwyd wrthym na ddylem wneud hynny.
- Mae'r dyddiad cwblhau wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2023.

### Wind Street

- Mae gwaith uwch sydd eisoes wedi'i gwblhau yn cynnwys gwaith rheoli coed sy'n gwneud pensaernïaeth hanesyddol yr ardal yn fwy gweladwy, mae goleuadau stryd newydd wedi'u gosod a goleuadau lliw bach newydd ar goed.
- Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda grwpiau rhanddeiliaid, megis preswylwyr a grwpiau anabledd.
- Holodd y Panel am gyflwr presennol y busnes yn Wind Street, o ystyried y cyfyngiadau. Cadarnhaodd swyddogion fod y rhan fwyaf o fusnesau ar gau, fodd bynnag, mae perchnogion yn awyddus i weld y gwaith yn cael ei gwblhau gan y bydd hyn yn helpu i gadw busnesau a denu busnes newydd os/pan fo hynny'n berthnasol.
- Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Abertawe'n arwain y ffordd o ran adennill swyddi, gan nodi cyfradd twf o 8.1%.

### Marchnata Safleoedd Strategol

- Mae cyfarfodydd deialog gyda phartneriaid dethol wedi dechrau a threfnwyd cyfarfodydd i gynigwyr gael y cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o adrannau cynllunio a thai Cyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru.
- Trafodaeth barhaus gyda chydweithwyr yn y cyngor ynghylch sut i fwrw ymlaen â diweddarau safonau parcio.
- Holodd yr Aelodau a fyddai rheolaeth traffig yng nghanol y ddinas yn gallu darparu ar gyfer ceir hunan-yrru yn y dyfodol. Mae swyddogion yn credu ei fod wedi'i ddiogelu at y dyfodol. Esboniwyd bod y rhwydwaith ffyrdd wedi'i fapio a bod ardaloedd gollwng wedi'u modelu fel rhan o'r prosiect. Cadarnhawyd nad oes rheswm pam na allai ceir hunan-yrru ddefnyddio'r ardaloedd hyn yn y dyfodol.

### Safleoedd Strategol a Throsolwg o'r Prosiect

- Sgwâr y Castell - gofynion diwygiedig ar gyfer mannau gwyrdd ychwanegol a mwy o gyfleoedd masnachol.
- Skyline - Mae COVID wedi achosi oedi ar draws holl brosiectau Skyline. Os bydd Skyline yn penderfynu bwrw ymlaen yna disgwylir i'r amserlen fod fel a ganlyn: Cynllunio 12 mis, dylunio 12 mis ac adeiladu 24 mis.
- Mariner Street – Mae gwaith yn mynd rhagddo, er bod oedi oherwydd COVID-19. Cytunwyd ar Benawdau Telerau ag un tenant angori. Mae trafodaethau'n parhau i sicrhau ail denant angori.

### Trosolwg o'r Cyllid Allanol

- Theatr y Palace - Rhaglen gyffredinol yn parhau i fod ar y trywydd iawn ar gyfer ei chwblhau erbyn Mehefin 2022
- Datblygiad siop Woolworths yn cael ei asesu - mae Hacer wedi gofyn am fenthyciad canol trefi ymlaen llaw ar gyfer hen ddatblygiad Woolworths. Yn debygol o fod yn ddefnydd cymysg am fod gwerth o ran rhent manwerthu ar y llawr gwaelod.
- Datblygiad pontynau - yn parhau i symud ymlaen ac rydym yn ceisio cael cyllid i ddatblygu'r datblygiad hwn. Clywodd y Panel y bydd tacsis afonydd a chwch Copper Jack yn gallu gollwng teithwyr ar wahanol bwyntiau mynediad ar hyd yr afon.
- Bydd rhai cyfyngiadau o ran pa mor bell y gall cychod deithio heibio'r bont wrthbwys.
- Gofynnodd yr Aelodau a fydd y prosiect hwn yn galluogi chwaraeon dŵr. Dywedodd swyddogion fod yr afon eisoes wedi'i dynodi'n afon rhwyfo ac mae'r clwb rhwyfo wedi mynegi diddordeb mewn safle ar hyd glan yr afon.
- Bro Tawe – Holodd yr Aelodau am yr amser a gymerwyd i lunio adroddiad ecoleg ac roeddent am dynnu sylw at y safle anghyffredin iawn a ddefnyddir (llifddol). Sicrhaodd swyddogion y Panel fod yr adroddiad ecoleg yng nghamau olaf ei gwblhau. Esboniodd swyddogion fod CNC yn adolygu'r gofynion llifogydd a bydd angen ystyried hyn cyn bwrw ymlaen ag unrhyw beth.
- Felindre - Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y prosiect hwn maes o law.

## 6 **Cyfleoedd masnachol mewn ardaloedd gwledig**

Roedd y Panel yn ddiolchgar am y cyflwyniad a roddwyd gan Vicki Thomson, Swyddog Rhaglen Ariannu Allanol. Roedd Clare James, Rheolwr Datblygu Economaidd, hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Nodwyd y materion canlynol:

- Ariennir Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe (CDG) gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) tan 2023.
- Clywodd y Panel mai nod y rhaglen yw hyrwyddo twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru ac annog mwy o ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned; cael eu harwain gan y gymuned yn hytrach na busnes.
- Clywodd y Panel fod Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe yn gweinyddu'r gronfa 'LEADER' a arweinir yn lleol, sy'n cynnwys

cynrychiolwyr o'r sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus sy'n gweithredu dros wyth ward wledig.

- Esboniodd swyddogion fod dull 'Un Blaned' yn cael ei ddefnyddio, gan ystyried yr effaith y mae gweithgareddau'n ei chael ar y blaned gan gymryd camau i leihau'r adnoddau a ddefnyddir/gwastraff a gynhyrchir.
- Mae allbynnau prosiectau gwledig wedi rhagori ar dargedau hyd yma.
- Nododd swyddogion sefyllfa ariannol y prosiect, £281,900 yw'r gyllideb sy'n weddill i'w dyrannu.
- Clywodd y Panel am brosiectau a gwblhawyd, megis prosiect Cymuned Killan, lle bydd Fferm Solar yn datblygu i gael rhagor o arian gan y Llywodraeth. Roedd 'Market at the Mill' yn enghraifft arall o brosiect llwyddiannus sydd bellach yn parhau i werthu cynnyrch lleol.
- Mae'r prosiectau cyfredol sy'n mynd rhagddynt yn cynnwys - Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned, Llwybrau Beicio Oddi ar y Ffordd Gŵyr a Big Meadow – Surf N Turf.
- Mae'r Panel yn deall taw yn ystod haf 2020 oedd y cyfnod ariannu diwethaf a bydd angen ei ddefnyddio erbyn mis Chwefror 2023.
- Clywodd y Panel, yn dibynnu ar swm y grant, fod dwy broses ymgeisio wahanol.
- Er bod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn canolbwyntio ar ddull cymunedol (yn hytrach na chymorth a datblygiad busnes unigol), esboniwyd bod tîm RhDG Abertawe yn cydnabod bod cyfrifoldeb i weithio gyda busnesau i nodi'r dulliau angenrheidiol sy'n creu economi sylfaenol gadarn.
- Clywodd yr Aelodau am yr heriau penodol a wynebir o ganlyniad i'r pandemig:
  - Dros y 9 mis diwethaf mae Abertawe wledig wedi profi effaith sylweddol oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau lleol a roddwyd ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd.
  - Mae'r diwydiant twristiaeth wedi adrodd nad yw'n gallu manteisio ar wariant ymwelwyr; nid oes unrhyw alw am lety.
  - Mae busnesau lletygarwch wedi adrodd bod colledion difrifol o ran masnach oherwydd y cyfyngiadau.
  - Adroddwyd bod methiannau yn y gadwyn gyflenwi yn ôl cynhyrchwyr bwyd cynradd ac uwchradd.
  - Mae manwerthu bwyd wedi gweld mwy o alw am fwydydd a gynhyrchir yn lleol. Mae'r rhai sydd â'r gallu i ddosbarthu nwyddau i gwsmeriaid wedi nodi cynnydd mewn gwerthiannau ond mae ganddynt bryderon ynghylch cadw cwsmeriaid unwaith y bydd archfarchnadoedd yn sicrhau bod mwy o slotiau dosbarthu ar gael;
  - Mae pob busnes wedi nodi anawsterau gyda chymorth ariannol drwy weithgarwch masnachol cyfyngedig, diffyg eglurder ynghylch cyfyngiadau ac anawsterau o fewn cadwyni cyflenwi.
  - Sefydlwyd Partneriaeth Bwyd Abertawe mewn ymateb uniongyrchol i drafodaethau â busnesau bwyd gwledig yn ardaloedd RhDG Abertawe a fynegodd angen am ymagwedd gydlynol wrth gefnogi a rhwydweithio busnesau bwyd a diod, yn ogystal â mynegi diddordeb ynddi. Ar hyn o bryd, nid oes gan Bartneriaeth Bwyd Abertawe unrhyw gyllid ac mae'n chwilio am adnoddau i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y cyllid sydd ar gael gan fod y DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Esboniodd swyddogion y bydd yr

arian Ewropeaidd a sicrhawyd eisoes ar gael i'w wario tan 2023. Mae ffrydiau ariannu eraill yn cael eu harchwilio, sef y 'Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

- Soniodd yr Aelodau am yr ôl- troed byd-eang, sy'n is na'r cyfartaledd fesul person yn Abertawe, sef 3.25 gha.
- Holodd yr Aelodau pa sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli o fewn y Grŵp Gweithredu Lleol. Cyfeiriodd swyddogion at CGGA, Canolfan Cydweithredol Cymru a Choed Fach, a adawodd y bartneriaeth yn ddiweddar. Bydd galwad agored am aelodau ychwanegol i'r grŵp.
- Holodd yr Aelodau a oedd adnoddau bwyd lleol hefyd yn gynaliadwy ac a oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i fwyta llai o gig.
- Soniodd y Panel am y gwaith cadarnhaol a'r prosiectau yr oeddent wedi clywed amdanynt, gan gynnwys llwybrau beicio Gŵyr. Holodd yr Aelodau am hyn, ond eglurodd swyddogion fod oedi oherwydd caniatâd mynediad tir ac oedi anochel o ran COVID-19. Ymrwymodd swyddogion i ddod yn ôl gyda rhagor o wybodaeth am estyn y llwybr beicio a'r cynllun llogi beiciau.
- Trafododd yr Aelodau sut mae Gogledd Gŵyr hefyd yn bwysig iawn ar gyfer llwybrau beicio.
- Holodd yr Aelodau a oedd cysylltiadau â RhDLlau eraill yn y rhanbarth. Dywedodd swyddogion fod y timau rhanbarthol yn cyfarfod bob chwe wythnos i rannu arfer da.
- Cododd y Panel bryderon ynghylch diwydiant casglu cocos hanesyddol Penclawdd, a'r effeithiau arno o ganlyniad i ollyngiad diesel yn yr aber yn gynharach eleni. Cytunodd y swyddogion i ymgymryd yn uniongyrchol â'r grŵp hwnnw unwaith eto.

#### Camau Gweithredu:

- Ni ddarparwyd fideo drôn o'r Arena eto - bydd yn cael ei ddangos yn lle taith o'r safle.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am farchnata Felindre i'w darparu mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Ceisiwyd mwy o eglurder ynghylch beth yw llafur lleol, a sut yn union y mae'r ffigurau yn y llythyr ymateb blaenorol yn adlewyrchu gweithlu Abertawe.
- Rhagor o wybodaeth i'w chyflwyno i'r Panel ar estyn y llwybr beicio a llogi beiciau.

## 7 Lythyrau

### **Llythyr at Aelod y Cabinet**